# Asesiad Seilwaith Gwyrdd (ASG) Torfaen

## Rhagfyr 2021

# Crynodeb Gweithredol

*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg*
*This document is available in English*

## Diben yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd

Mae Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (PPW11, 2021) yn mynnu bod awdurdodau cynllunio yn paratoi Asesiad Seilwaith Gwyrdd (ASG) i lywio'r cynllunio a darparu seilwaith gwyrdd yn Nhorfaen. Mae PPW11 yn hyrwyddo dull seilwaith gwyrdd wrth gynllunio, dylunio a rheoli'r tir a ddefnyddir i sicrhau bod seilwaith gwyrdd yn rhan annatod a sylweddol o ddatblygu a chynigion seilwaith ehangach.

## Beth yw Seilwaith Gwyrdd?

Diffinnir Seilwaith Gwyrdd yn PPW11 fel *"rhwydwaith o nodweddion naturiol a lled naturiol, mannau gwyrdd, afonydd a llynnoedd sy'n gwasgaru ar draws ac yn cysylltu lleoedd"*. Gall Seilwaith gwyrdd weithio ar ystod o wahanol raddfeydd; o ecosystemau cyfan fel gwlypdiroedd ac afonydd i barciau, caeau a gerddi. Gall coed ar strydoedd, gwrychoedd, ymylon ffyrdd a thoeon/waliau gwyrdd, gyfrannu at rhwydweithiau seilwaith gwyrdd. Y term am y nodweddion hyn yw Asedau Seilwaith Gwyrdd. Mae ganddynt rôl i'w chwarae i gefnogi bioamrywiaeth a chyflawni manteision iechyd, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.



**Parciau a Gerddi Ffurfiol**

- parciau trefol; gerddi preifat
- Llyn Cychod Cwmbrân, Parc Glansychan a'r Gerddi Americanaid



**Man Gwyrdd Naturiol**

- Coedwigoedd, Glaswelltir, Gweundir
- Corsydd, Afonydd a Nentydd



**Man Gwyrdd Amwynder**

- Caeau chwaraeon, mannau chwarae, rhandiroedd
- Man gwyrdd anffurfiol

## Pam mae Seilwaith Gwyrdd yn Bwysig?

Mae'r fath asedau seilwaith gwyrdd yn ffurfio rhwydwaith, ac os byddant yn cael eu **cynllunio, dylunio a'u rheoli'n dda** byddant yn cynnig fanteision **lu** i bobl a natur. Mae'r fath fanteision, neu **wasanaethau ecosystem,** yn cynnwys aer a dŵr glân, pridd ffrwythlon i dyfu bwyd ac adnoddau ynni i gynhesu ein cartrefi. Rydym yn dibynnu ar lawer o'r gwasanaethau hyn i fodoli. Mae gwasanaethau ecosystem llai amlwg yn cynnwys coetiroedd sy'n rheoleiddio'r hinsawdd ac sy'n cynnig system amddiffyn llifogydd naturiol, y biliynau o dunelli o garbon sy'n cael eu storio mewn mawndiroedd, y pryfed



**Safleoedd Sefydliadol**

Mynwentydd, tiroedd ysgol, ysbytai a chartrefi preswyl



**Asedau Treftadaeth**

- Safle Treftadaeth byd, Parc Cenedlaethol
- Parciau a Gerddi wedi eu rhestru, Henebion Cofrestredig, Adeiladau Rhestredig



**Coridorau gwyrdd**

- Llwybrau beicio, Hawliau Tramwy, glannau afonydd a chamlesi, ymylon ffyrdd a rheilffyrdd

sy'n peillio'r cnydau yn ogystal â'r bywyd gwyllt a'r amgylchedd naturiol sy'n ein hysbrydoli, a'r mannau yr ydym yn eu defnyddio am resymau hamdden, sy'n cyfrannu at ein hiechyd corfforol a'n lles meddyliol. I weithio'n iawn, rhaid i'r ecosystemau hyn fod yn iach. Mae'r seilwaith gwyrdd sy'n cael ei ddryllio'n gynyddol, yn diraddio'r gwasanaethau y gellir eu darparu.

## Materion a Heriau Allweddol i Dorfaen

Mae'r pwysau ar ein hadnoddau naturiol yn dwysáu, wrth inni anelu at ddarparu tai a chyfleoedd gwaith ar gyfer ein poblogaeth sy'n ehangu a heneiddio. Mae angen i ni wynebu newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth sy'n dirywio a mynd i'r afael â'r agenda iechyd a lles sydd wedi'i ymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae angen edrych ar rheoli a datblygu ein hadnodd tir mewn ffordd strategol, er mwyn mynd i'r afael â'r materion rheoli tir sy'n amrywiol ac yn aml yn gystadleuol, a hynny mewn ffordd gydlynol, er mwyn defnyddio adnoddau ariannol a naturiol sydd gennym, mewn ffordd effeithiol.

**Tabl 1: Materion a Heriau Allweddol yn Nhorfaen**

| Mater Allweddol (fel y'i diffiniwyd yn y Cynllun Llesiant) | Heriau i Dorfaen |
|---|---|
| Newid yn yr hinsawdd | Lliniaru ac addasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd |
| Poblogaeth afiach | Annog poblogaeth actif |
| Poblogaeth sy'n heneiddio | Darparu ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio |
| Dirywiad bioamrywiaeth | Gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth a datblygu gwytnwch ecolegol |
| Pwysau o ran datblygu | Sicrhau nad yw'r datblygu yn dwysáu'r diffygion yn y ddarpariaeth a glynu at egwyddorion creu lleoedd yn cynnwys ymgorffori seilwaith gwyrdd newydd ac sydd eisoes yn bodoli. |

## Sut y gall Manteision SG helpu i ddelio â heriau allweddol

Mae asedau seilwaith gwyrdd yn cynnig manteision cymdeithasol a all helpu i gyfrannu at iechyd, cyfoeth a lles yn Nhorfaen. Gall buddsoddi mewn SG sydd wedi ei ddylunio a'i rheoli'n dda, helpu gyda'r canlynol:

**mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd**

- helpu i addasu i dywydd eithafol
- lleihau'r perygl o lifogydd
- gwella ansawdd dŵr
- storio a secwestru carbon

**gwella iechyd a lles**

- lleihau anghydraddoldeb iechyd
- gwella gweithgarwch corfforol
- gwella lles meddyliol
- hyrwydo cydlyniant cymunedol a chymdeithasol

**datblygu gwytnwch ecolegol**

- cynyddu maint ac amrywiaeth cynefinoedd
- cynyddu poblogaeth rhywogaethaun
- cynyddu gallu rhywogaethau i symud

**creu mannau gwych i fyw**

- denu buddsoddi mewnol a chreu sywddi
- cynyddu gwerth tir ac eiddo
- cyfrannu at adfywio economaidd

## Seilwaith Gwyrdd Aml-ddefnydd

Mae Asedau SG yn cynnig y manteision hyn drwy berfformio swyddogaethau amrywiol fel cynnig cysgod rhag gwyntoedd, ein cadw'n oer, dal llygrwyr o'r aer a'r dŵr, amsugno a chasglu dŵr glaw i atal llifogydd, darparu bwyd a thanwydd i ni, darparu cynefinoedd a choridorau i fywyd gwyllt symud, mannau hamdden, llwybrau teithio cynaliadwy a golygfeydd hardd. Gelwir y rhain hefyd yn

‘wasanaethau ecosystem’. Mae Tabl 2 isod yn dangos y rhestr lawn o swyddogaethau y gellir eu darparu. Gall unrhyw ased fod yn aml-ddefnydd sy’n cynnig cymaint o fanteision.

**Tabl 2: Swyddogaethau Ecosystemau**

| AMGYLCHEDDOL | CYMDEITHASOL | ECONOMAIDD | DIWYLLIANNOL |
|---|---|---|---|
| Cysgodi rhag yr haul<br>Oeri anweddol<br>Cysgod rhag y gwynt<br>Cynefin i fywyd gwyllt<br>Coridor bywyd gwyllt<br>Sefydlogi pridd<br>Storio dŵr<br>Atal dŵr<br>Ymdreiddiad dŵr<br>Lleihau’r llif oherwydd natur arw’r wyneb<br>Storio carbon<br>Secwestru carbon<br>Adnodd peillio<br>Amsugno sŵn<br>Dal llygryddion | Llwybr teithio gwyrdd<br>Esthetig<br>Dysgu<br>Hamdden | Cynhyrchu bwyd<br>Cynhyrchu tanwydd<br>Cynhyrchu pren<br>Swyddi gwyrdd<br>Lleoliad ar gyfer datblygu<br>Ategu at y ddelwedd | Ased treftadaeth<br>Ased diwylliannol |

## Pwysigrwydd Cysylltedd

Gall cysylltedd rhwng gwahanol asedau SG helpu i fanteisio i’r eithaf ar y manteision sy’n deillio ohonynt. Mae asedau SG sydd wedi eu cysylltu’n dda, yn creu seilwaith sy’n hyblyg ac yn wydn i newidiadau amgylcheddol. Cysylltiadau ffisegol sy’n cael yr effaith fwyaf, yn aml drwy greu ‘‘cerrig camu’ ffisegol sy’n annog bioamrywiaeth ymfudol a chysylltu lleoedd â llwybrau cerdded neu feicio sy’n gynaliadwy. Wrth gysylltu gyda’i gilydd, mae asedau SG yn creu rhwydweithiau SG aml-ddefnydd sy’n bwysig, a dylid eu cynnwys ar bob graddfa ofodol.

## Yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd

Mae’r asesiad hwn yn:

a) Nodi asedau Seilwaith Gwyrdd a'r swyddogaethau sy'n cyfrannu at bob un o'r themâu Seilwaith Gwyrdd
b) Mapio llinell sylfaen asedau a swyddogaethau Seilwaith Gwyrdd ar draws Torfaen ar Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) digidol
c) Datblygu map Grid Gwyrdd Trefol o ‘goridorau ecolegol a hamdden’ gwyrdd ar draws Torfaen, sy’n cysylltu’r asedau hyn a chreu’r rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd
d) Dangos tystiolaeth ar gyfer gwarchod y rhwydwaith hwn neu’r Grid Gwyrdd Trefol trwy bolisïau’r Cynllun Datblygu Lleol a’r Cynllun Datblygu Lleol newydd.
e) Nodi methodoleg i asesu’r angen strategol am bob swyddogaeth yn seiliedig ar fapio data llinell sylfaen Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) ac ati.
f) Nodi a darparu arweiniad ar ffyrdd y gellir gwella Seilwaith Gwyrdd, yn dibynnu ar yr angen hy mapio cyfleoedd

## Asesu Ymarferoldeb

Cafodd pob teipoleg ei asesu i ganfod pa swyddogaethau y gallant eu cyflawni. Er efallai na fydd yr asedau hyn yn cyflawni'r holl swyddogaethau hyn ym mhob un o’r amgylchiadau, i gadw pethau’n syml, ac at ddiben yr ymarfer hwn, tybiwyd eu bod. Gellir dadansoddi ymarferoldeb unrhyw safle’n

fwy manwl, pan eir ati i lunio cynigion manwl i ymyrryd. Mae **Error! Reference source not found.** yn dangos sut y gallai pob un o'r swyddogaethau hyn  helpu i gyflawni ein pedwar thema Seilwaith Gwyrdd.

**Tabl 3: Themâu, swyddogaethau ac asedau Seilwaith Gwyrdd**

| THEMA SG | SWYDDOGAETH | ASED |
|---|---|---|
| **Newid yn yr hinsawdd** | Cysgod rhag yr haul<br>Sefydlogi pridd<br>Storio carbon<br>Storio a chludo dŵr<br>Gwaredu ar lygryddion<br>Cynhyrchu bwyd lleol | Coetiroedd, coed stryd<br>Coetiroedd, glaswelltiroedd<br>Coetiroedd, coed stryd, corsydd, llwybrau beicio<br>Mannau gwyrdd naturiol, Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS)<br>Coetir, coed, glaswelltir, corsydd, SuDS<br>Rhandiroedd, perllannau, tir pori |
| **Iechyd a Lles** | Hamdden<br>Teithio llesol<br>Dal llygryddion sydd yn yr aer<br>Man Cymunedol<br>Tyfu bwyd lleol | Lleiniau, mannau chwarae, coridorau hamdden gwyrdd,<br>Llwybrau beicio, hawliau tramwy cyhoeddus<br>Coetir, coed,<br>Mannau dinesig, mannau gwyrdd amwynder, perllannau, tir pori |
| **Gwytnwch Ecolegol** | Peillio<br>Cynefin i fywyd gwyllt<br>Coridor i fywyd gwyllt | Glaswelltiroedd, perllannau, rhandiroedd<br>Mannau gwyrdd naturiol,<br>Coridorau gwyrdd, ymylon, afonydd, nentydd, cyrff dŵr, camlas |
| **Creu lleoedd** | Darparu swyddi<br>Dysgu gydol oes<br>Sgiliau a gwirfoddoli<br>Lleoliad<br>Cysylltiad â'r amgylchedd lleol<br>Amsugno sŵn<br>Treftadaeth a diwylliant | Parciau, mannau gwyrdd amwynder, mannau gwyrdd naturiol<br>Safleoedd Sefydliadol, mannau gwyrdd naturiol<br>Mannau gwyrdd naturiol, mannau gwyrdd amwynder,<br>Pob SG<br>Coridorau gwyrdd<br>Coed, coetiroedd<br>Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon, Ardaloedd Cadwraeth, Henebion Cofrestredig, Adeiladau Rhestredig, Parciau a Gerddi Rhestredig |

## Asesu'r Angen

I ganfod yr angen am unrhyw rhai o'r swyddogaethau hyn, awgrymwyd cyfres o ddangosyddion. Mae teipolegau sy'n perfformio pob swyddogaeth yn cael eu mapio a diffinnir meysydd angen fel y rhai hynny lle mae'r teipolegau hyn yn brin. Bydd dangosyddion ychwanegol sy'n nodi angen, fel ardaloedd lle mae iechyd yn wael neu lle mae grwpiau bregus fel yr henoed neu blant, yn rhoi blaenoriaeth bellach i'r angen am swyddogaeth benodol fel ardal hamdden neu fan cysgodol.

## Gwneud Asesiad

Mae'r Asesiad hwn yn cynnig dau ddull i'n helpu i wneud penderfyniadau ynglŷn â sut mae angen i ni reoli ein hasedau SG i sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o'r manteision y maen nhw'n eu darparu i bobl a natur a hynny gydag adnoddau cyfyngedig. Mae'r **Dull Brig i Lawr** a ddangosir


isod, yn addas o ran rheoli ein hadnodd SG mewn modd strategol, ac mae'r **dull Gwaelod i Fyny** yn briodol pan fydd angen dadansoddi'r safle.

Mae'r **Dull Brig i Lawr** yn berthnasol i reoli ein hadnoddau SG yn strategol, sy'n golygu:

- Mapio asedau SG ar gyfer Bwrdeistref Sirol Torfaen
- nodi'r swyddogaethau y maent yn eu darparu ar hyn o bryd
- nodi lle na ddarperir y swyddogaethau hyn
- awgrymu lle gellir gwneud yr ymyriadau mwyaf priodol.

Mae'r **dull Gwaelod i Fyny** yn fecanwaith i asesu pa mor ymarferol yw safle penodol i ddangos y manteision y mae'n ei ddarparu ar hyn o bryd i'r gymuned leol. Gellir defnyddio'r asesiad hwn i bennu a ddylid buddsoddi yn y safle yn y dyfodol i gynyddu pa mor ymarferol ydyw

- wrth ystyried safle ymgeisiol ar gyfer y CDLl neu wrth asesu safle datblygu arfaethedig drwy'r broses rheoli datblygu
- wrth ystyried cael gwared ar ased
- wrth chwilio am safleoedd posibl o ran lliniaru bioamrywiaeth
- i gynorthwyo i asesu safleoedd yn unol â CCA Briffiau Dylunio, Uwchgynllunio a Datblygu Safleoedd, Chwefror 2023




**Mae CCA Seilwaith Gwyrdd y Cyngor yn dangos sut y dylid ymgorffori seilwaith gwyrdd sy'n bodoli ar safle a'i wella'n rhan o'r unrhyw gynigion datblygu.**

## Monitro ac Adolygu

Bydd yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd yn cael ei adolygu bob pum mlynedd. Bydd ymarferion mapio'r Grid Gwyrdd Trefol yn cael eu hadolygu i sicrhau bod y data sy'n sail i benderfyniadau, mor gadarn â phosibl.

Bydd y Mannau Agored â Blaenoriaeth yn cael eu nodi drwy'r broses Proffil Ward. Cynghorau Ward, Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref fydd yn ymgynghori ac yn cytuno arnynt.

Bydd Strategaeth Hamdden yn cael ei datblygu i wella'r ddarpariaeth chwarae, y ddarpariaeth i bobl ifanc a chwaraeon, yn unol ag argymhellion Asesiad Mannau Agored Torfaen.

Bydd Strategaeth Rhandiroedd yn cael ei datblygu i wella'r rhandiroedd a ddarperir yn y fwrdeistref sirol, ac ystyrir dargyfeirio adnoddau S106 i wella rhandiroedd.

## Casgliad

Mae'r cyfleoedd strategol allweddol lle bydd seilwaith gwyrdd yn sicrhau'r manteision mwyaf arwyddocaol i Dorfaen wedi cael eu nodi fel a ganlyn:

Adfer:

- corsydd ucheldirol
- cynefinoedd coetir lled-naturiol hynafol
- ansawdd y dŵr ar hyd Afon Lwyd a'i llednentydd
- lleihau pwysau pori ar dir sy'n eiddo i CBST er mwyn adfer y tir pori i laswelltir sy'n gyfoeth o rywogaethau

Cynnal a chadw:

- stoc coetir trefol
- llai o gyfundrefnau torri ar dir sy'n eiddo i'r cyhoedd i gynyddu amrywiaeth y rhywogaethau

Creu:

- gwerth bioamrywiaeth ac amwynder o fewn cynlluniau draenio cynaliadwy ar safleoedd datblygu newydd
- cyfleoedd i ôl-addasu cynlluniau draenio cynaliadwy mewn datblygiadau sydd eisoes yn bodoli
- pyllau, gwalau a chyrff dŵr eraill
- plannu coed a gwrychoedd brodorol ar safleoedd datblygu a thrwy'r fwrdeistref
- plannu coed ar y strydoedd ac mewn gerddi er mwyn creu cysgod
- toeon a waliau gwyrdd lle bo hynny'n briodol yn enwedig mewn ardaloedd trefol lle mae cyfleoedd i blannu yn gyfyngedig

Cysylltu:

- Gwarchod a gwella'r coridorau gwyrdd a nodwyd yn y Map Grid Gwyrdd Trefol a chreu neu gynnal cyswllt â'r coridorau gwyrdd strategol ehangach i gynorthwyo rhywogaethau i symud er mwyn eu galluogi i fridio a chwilota am fwyd
- Plannu coed newydd ar strydoedd ac amnewid y stoc bresennol i gysylltu asedau seilwaith gwyrdd

Buddsoddi

- Gwella ansawdd ein mannau agored a pha mor hygyrch ydynt, yn cynnwys parciau ffurfiol, mannau chwarae, lleiniau chwaraeon a rhandiroedd

## Grid Gwyrdd Trefol Torfaen

Fe wnaeth Strategaeth Seilwaith Gwyrdd BGC Torfaen ddarparu trosolwg strategol o seilwaith gwyrdd y fwrdeistref, gan dynnu sylw at goridorau strategol o amgylch ymylon gorllewinol a dwyreiniol y fwrdeistref ac ar hyd Afon Lwyd a Chamlas Mynwy ac Aberhonddu.

Mae'r Map Grid Gwyrdd Trefol yn canolbwyntio ar y rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd mewn trefi, gan dynnu sylw at y coridorau gwyrdd sy'n cysylltu asedau seilwaith gwyrdd penodol ac yn fodd hanfodol o gyswllt i fywyd gwyllt a phobl. Mae diogelu a gwella'r fath 'gerrig camu' yn hollbwysig o ran gwytnwch ecolegol ond maent hefyd yn caniatáu amgylchedd trefol hydraidd y gall bobl deithio drwyddo.

Mae fersiwn o'r Map Grid Gwyrdd Trefol hwn ar gyfer y cyhoedd ar gael ar
http://gis.torfaen.gov.uk:8010/connect/analyst/mobile/ -/main?mapcfg=Public%20View&lang=en_GB&overlays=Urban%20Green%20Grid

Mae map o fannau gwyrdd Torfaen ar gael i'w weld ar
http://gis.torfaen.gov.uk:8010/connect/analyst/mobile/ -/main?mapcfg=Public%20View&lang=en_GB&overlays=Green%20Spaces%20-%20Mannau%20Gwyrdd

Bydd y mapiau hyn yn cael eu diweddaru bob blwyddyn o leiaf wrth i wybodaeth newydd ddod i'r amlwg, a thrwy arsylwi ar y safleoedd eu hunain.

